# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Papur Gwyn yr Undeb Ewropeaidd ar Lywodraethu

**C11 Phil Williams:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal â chydweithwyr mewn gweinyddiaethau datganoledig eraill ynghylch Papur Gwyn yr Undeb Ewropeaidd ar lywodraethu? (OAQ15440)

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Nid wyf wedi trafod y Papur Gwyn yn swyddogol â'm cydweithwyr yn y gweinyddiaethau datganoledig eraill. Er hynny, fe fu trafodaethau rheolaidd ar lefel swyddogol â gweinyddiaethau datganoledig eraill y DU. Cynrychiolwyd Llywodraeth y Cynulliad hefyd ar lefel swyddogol yn y rhwydwaith o lywodraethau rhanbarthol Ewropeaidd sy'n ystyried y Papur Gwyn.

### Y Gwasanaeth Rheilffyrdd yng Nghymru

**C12 Rhodri Glyn Thomas:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ddiweddar ynghylch y gwasanaeth rheilffyrdd yng Nghymru? (OAQ15441)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn cyfarfod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn rheolaidd i drafod ystod eang o faterion sy'n ymwneud â thrafnidiaeth. Yr wyf eisoes wedi cael cyfle i gwrdd â chadeirydd newydd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, Richard Bowker, ac wedi pwysleisio iddo mor bwysig yn ein golwg ni yw cael y fasnachfraint reilffyrdd newydd i Gymru a'r Gororau.

### Ad-drefnu'r Cabinet

**C13 Jocelyn Davies:** A wnaiff Prif Weinidog Cymru sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddo ar y gweill i ad-drefnu'r Cabinet? (OAQ15456)

**Prif Weinidog Cymru:** Nid oes gennyf unrhyw gynlluniau i ad-drefnu fy Nghabinet.

### Dyffryn Clwyd

**C14 Ann Jones:** Yn ei rôl fel cydlynydd polisi gogledd Cymru, a yw Prif Weinidog Cymru yn bwriadu ymweld â Dyffryn Clwyd i dynnu sylw at weithredu polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru yng ngogledd Cymru? (OAQ15438)

**Prif Weinidog Cymru:** Yr wyf yn gwneud pob ymdrech i ymweld â'r Gogledd yn rheolaidd, gan gynnwys Dyffryn Clwyd, ac i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarth y Gogledd mor aml ag y gallaf. Yr wyf hefyd yn ymdrechu i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ystyried effeithiau ei pholisïau a'i phenderfyniadau ar bob rhan o Gymru.

### Datganoli Mwy o Swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

**C15 Dafydd Wigley:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cynnal â Tony Blair eleni ynghylch datganoli mwy o swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (OAQ15425)

**Prif Weinidog Cymru:** Trafodais y mater hwn â’r Prif Weinidog ddiwethaf yn ystod ei ymweliad â’r Cynulliad ddiwedd mis Hydref y llynedd.